

Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

Y Cynghorydd G Walter

Ward: Canol Dwyrain
Porthcawl

Plaid: Llafur Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau rhwng **1/5/2024 a 30/4/2025**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

Y Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Canol Dwyrain Porthcawl ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o bum pwyllgor. Fy nghofnod presenoldeb o holl gyfarfodydd y cyngor a'r pwyllgorau eleni yw 23 allan o 24, sef 96%.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 40 o ymholiadau/atgyfeiriadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â 16 o faterion eraill y gofynnwyd i mi helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth drwy ddilyn y ddolen hon:

[Y Cynghorydd Graham Walter](#)

Gweithgareddau Etholaethol

Rwyf wedi mynychu Archwiliadau Gweledol Amgylcheddol ar y cyd â'n Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i helpu i nodi a datrys materion sy'n peri pryder, ynghyd â Theithiau Cerdded Ward at yr un diben.

Rwy'n mynychu cyfarfodydd Pact a'r cymorthfeydd AS lleol yn rheolaidd i ddarparu cymorth ar faterion y Cyngor.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi bod yn rhan o gyfarfodydd ar y safle ac ymgynghoriadau mewn perthynas ag Adfywio Porthcawl, datblygiad Cosy Corner a Phafiliwn y Grand.

Y Cynghorydd G Walter:

Dyddiad:9/06/2025